# ATODLEN 3

## DARPARIAETH BELLACH MEWN CYSYLLTIAD Â THRWYDDEDAU TRINIAETH ARBENNIG

### *Cais am drwydded triniaeth arbennig*

4 (1) Rhaid i gais gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad preswylio arferol y ceisydd;

(b) unrhyw enw masnachu arfaethedig;

(c) rhif ffôn a chyfeiriad e-bost (os oes un) y ceisydd;

(d) yn achos cais i ddyroddi trwydded sy'n awdurdodi i driniaeth gael ei rhoi mewn mangre o fewn adran 59(3) (mangre neu gerbyd a feddiennir neu a reolir gan bersonau penodol, neu sydd o dan eu rheolaeth), cyfeiriad pob un o'r mangreoedd y mae rhoi'r driniaeth i gael ei awdurdodi gan y drwydded;

(e) yn achos cais am drwydded sy'n awdurdodi i driniaeth gael ei rhoi mewn cerbyd o fewn adran 59(3) sydd â rhif cofrestru, rhif cofrestru'r cerbyd;

(f) yn achos cais am drwydded sy'n awdurdodi i driniaeth gael ei rhoi mewn cerbyd o fewn adran 59(3) nad oes ganddo rif cofrestru, pa fanylion adnabod bynnag am y cerbyd y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol;

(g) unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol gan yr awdurdod o dan sylw, a gaiff, er enghraifft, gynnwys gwybodaeth am unrhyw drosedd y mae'r ceisydd wedi ei euogfarnu ohoni (pa un a'i cyflawnwyd o dan gyfraith Cymru a Lloegr ai peidio).

(2) Ar unrhyw adeg ar ôl cael cais ond cyn dyfarnu arno, caiff awdurdod ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu iddo unrhyw wybodaeth bellach y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn ei alluogi i ddyfarnu ar y cais.

(3) Caiff yr wybodaeth bellach honno gynnwys unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben gwirio hunaniaeth y ceisydd.

(4) Caiff rheoliadau—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol i ddyfarnu ar swm y ffi sydd i ddod gyda chais a wneir iddo;

(b) gwneud darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ynghylch y ffordd y mae cais i gael ei wneud, yr wybodaeth sydd i gael ei darparu, a'r ffordd y mae awdurdod i ddelio â chais).